

Mae'r trosolwg hwn yn rhoi crynodeb o'r rhaglenni a gynigir o fis Medi 2019. A fydddech cystal â nodi y gallai'r rhain gael eu haddasu a'u newid yn y dyfodol. Ymgynghorir â myfyrwyr bob amser ynglŷn â newidiadau o'r fath a bydd manylion ar gael i ymgeiswyr sydd â chynigion. Er mwyn i fyfyrwyr allu symud o'r flwyddyn gyntaf i'r ail ar gwrs ôl-radd dwy flynedd, bydd angen iddynt fel arfer lwyddo yn holl fodiwlau'r flwyddyn gyntaf.

Rhan 1	Rhan 2
Y Gweithiwr Opera Proffesiynol 1 20 credyd	Prosiect Ensemble Opera 20 credyd
Y Perfformiwr Cydweithredol 20 credyd	Perfformio Opera 2 40 credyd
Testun Llafar a Chreu Cymeriad 20 credyd	Y Gweithiwr Opera Proffesiynol 2 20 credyd
Perfformio Opera 1 40 credyd	

Y Gweithiwr Opera Proffesiynol 1

MA mewn Perfformio Opera Uwch, MA mewn Astudiaethau Répétiteur ac MA mewn Cyfarwyddo Opera

Credydau: 20

Aseiad: Cynllun Gyrfa (50%); Perfformiad (50%)

Drwy gyfres o seminarau, bydd y modiwl hwn yn rhoi trosolwg o ddatblygiad opera, gan gynnwys dylanwadau cymdeithasol a gwleidyddol, newid mewn arddull gerddorol, materion dramatig/libreto, datblygiadau mewn arddull cynhyrchu a'r system "fach". Cyflwynir offer myfyrio er mwyn galluogi'r myfyrwyr i werthuso a chrisialu eu llwybr dysgu ar draws y rhaglen. Gan adeiladu ar wybodaeth gyd-destunol a geir o'r gyfres o seminarau, bydd elfen ymarferol y prosiect yn canolbwyntio ar gael dealltwriaeth ddofn o heriau cyflwyno adroddgan mewn opera, ar draws amrywiaeth o gyfansoddwyr, arddulliau ac ieithoedd. Cyflwynir hyn drwy sesiynau gweithio, hyfforddiant, llwyfannu gwaith a pherfformiad cyfansymiol. Bydd y gweithiau a ddewisir yn adlewyrchu potensial pob myfyriwr ac, i raddau llai, uchelgeisiau. Dewisir gweithiau drwy drafodaeth rhwng y myfyriwr, tiwtor a'r Pennaeth Adran. Addysgir yr elfennau gwybodaeth gyd-destunol ac ymwybyddiaeth o ofynion arddull yn ymwneud â'r repertoire a ddewiswyd mewn gwersi unigol a'u datblygu drwy ymchwil ac ymarfer personol.

Y Perfformiwr Cydweithredol

MA mewn Perfformio Opera Uwch

Credydau: 20

Asesiad: Beirniadaeth Fyfyriol (50%), Cyfweliad Datblygiad Personol (50%)

Bydd y modiwl hwn a gyflwynir mewn modd dwys yn cyflwyno ac yn archwilio technegau sy'n ymwneud â chreffft llwyfan sylfaenol, moeseg a phrotocol proffesiynol o fewn cyd-destun arferion gweithio cydweithredol. Anogir myfyrwyr i ddatblygu dull myfyriol tuag at eu gwaith eu hunain a chyfraniad aelodau eraill o'r grŵp drol gydol y dilyniant o weithdai.

Testun Llafar a Chreu Cymeriad

MA mewn Perfformio Opera Uwch

Credydau: 20

Asesiad: Perfformiad (80%); Asesiad Parhaus (20%)

Drwy gyfres o weithdai, bydd myfyrwyr yn archwilio methodoleg ar gyfer gwella eu sgiliau fel cantorion actio. Byddant yn archwilio heriau, cyfleoedd ac elfennau hollbwysig gwaith byrffyr a thestun wedi'i sgrïptio gyda'r Athro Cadair Rhyngwladol mewn Cyfarwyddo. Archwilir elfen gorfforol cyflwyniad dramatig, gan gyfuno symud a thestun. Bydd canolbwyntio ar werthuso'n feirniadol ac ymateb i sefyllfaoedd dramatig yn rhoi'r arfau i'r myfyrwyr benderfynu ar gyfeiriad a gwneud dewisiadau dramatig priodol.

Perfformio Opera 1

MA mewn Perfformio Opera Uwch

Credydau: 40

Asesiad: Dau Berfformiad (90%), Cyfweliad (10%)

Mae'r modiwl hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar y grefft o fod yn aelod o ensemble mewn cwmni operatig. Mae'n rhoi llawer o brofiad ymarferol, a allai gynnwys: rôl wedi'i henwi, rôl mewn corws, rôl wrth gefn a/neu weithgaredd ensemble. Drwy'r broses rihysal, anogir myfyrwyr i gydweithio mewn modd proffesiynol, yn arbennig o ran moeseg llwyfan. Bydd y modiwl yn datblygu'r gwaith a wneir o fewn y modiwl Testun Llafar a Chreu Cymeriad, gan ei osod yn uniongyrchol mewn cyd-destun operatig, a rhoi'r cyfle i archwilio a datblygu ymhellach agweddau ar dechneg megis cymeriad, y berthynas rhwng testun a cherddoriaeth, creadigrwydd a dehongliad. Gwneir llawer o'r gwaith hwn mewn sefyllfa gaeedig, gan greu amgylchedd diogel sy'n cefnogi cymryd risgiau.

Prosiect Ensemble Opera

MA mewn Perfformio Opera Uwch

Credydau: 40

Asesiad: Perfformiad (60%), Portffolio (40%)

Bydd y modiwl hwn yn rhoi fframwaith ar gyfer gweithgarwch a hunan-gyfarwyddir, gan atgynhyrchu prosiectau proffesiynol nodweddiadol, e.e. gwaith allgymorth/addysg, partïon cyngerdd, ac ati. Bydd myfyrwyr yn gweithio mewn grwpiau i gynllunio a chyflwyno prosiect sydd wedi'i deilwra ar gyfer rhanddeiliaid a ddewisir, wedi'i ganoli ar opera mewn modd creadigol ac arloesol, ac yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau anogwr priodol. Bydd partneriaeth yr Ysgol Opera gydag Opera Cenedlaethol Cymru yn galluogi mewnbwn gan, a chydweithrediad gyda, ei dîm leuenctid a Chymunedol, gan sicrhau bod cynnwys prosiectau yn bodloni arfer a disgwyliadau proffesiynol cyfredol. Efallai y bydd angen gwiriadau DBS ar gyfer y modiwl hwn, yn dibynnu ar y math o waith a wneir.

Perfformio Opera 2

Credydau 40

Asesiad: Dau Berfformiad (50%, 50%)

Mae'r modiwl hwn yn canolbwyntio ar ystod o sgiliau perfformio a gyflwynir drwy astudiaeth o rôl operatig wedi'i llwyfannu a chyngerdd operatig (gyda phiano neu gerddorfa, drwy gytundeb gydag Arweinydd y Dyfarniad). Bydd ymarfer personol yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad yr unigolyn ynghyd â'r cymhelliant i ymgysylltu yn y gwaith meddwl beirniadol a myfyriol sydd ei angen i ddod â rôl ddynodedig yn fyw (rolau wedi'u henwi/wrth gefn/corws). Cefnogir yr arweiniad drwy gyfres o gyfleoedd i gysgodi bywyd gweithiol aelodau cwmni o fewn Opera Cenedlaethol Cymru.

Y Gweithiwr Opera Proffesiynol 1

MA mewn Perfformio Opera Uwch, MA mewn Astudiaethau Répétiteur ac MA mewn Cyfarwyddo Opera

Credydau: 20

Aseiad: Ffug Glyweliad (75%); Portffolio (25%)

Trwy'r modiwl hwn bydd y myfyrwyr yn ymgysylltu mewn gwaith paratoi manwl ar gyfer rôl operatig lawn o opera a ddewisir drwy drafodaeth 1:1 gyda'r athro ac Arweinydd y Dyfarniad. Bydd dosbarthiadau yn canolbwyntio ar sicrhau cyfuniad o ddewisiadau deallusol a greddfol mewn creu cymeriad, wedi'i gysylltu i feistroli'r gofynion lleisiol. Bydd myfyrwyr yn derbyn arweiniad mewn sut i baratoi a chyflwyno mewn clyweliad neu sesiwn weithio gyda chwmmni opera proffesiynol. Cyflwynir dosbarthiadau rheoli gyrfa gan staff a/neu fentoriaid opera proffesiynol. Diben hyn fydd cefnogi'r broses gyffredinol, gan roi arweiniad mewn paratoi portffolio o ddeunydd cyhoeddusrwydd yn cynnwys gwefan. Bydd dosbarthiadau yn ailymweld â'r themâu a ymchwiliwyd yn *Y Perfformiwr Cydweithredol* a fydd yn galluogi myfyrwyr i ddadansoddi a myfyrio ar eu dull ar gyfer paratoi yn ogystal â chadarnhau eu gwybodaeth am rolau, operâu/y diwydiant.